

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Comisiwn y Cynulliad

## Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Gorffennaf 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:  
Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0845 010 5500  
E-bost: **[GwasanaethauDwyieithog@cymru.gov.uk](mailto:GwasanaethauDwyieithog@cymru.gov.uk)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Comisiwn y Cynulliad

**Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol**

Gorffennaf 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynnwys

<b>Rhagair gan Rhodri Glyn Thomas AC.....</b>	<b>1</b>
<b>01.Ein huchelgais a'n hymrwymiad .....</b>	<b>2</b>
Datganiad o uchelgais .....	2
Cwmpas y Cynllun leithoedd Swyddogol .....	3
Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo .....	4
<b>02.Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff.....</b>	<b>5</b>
<b>03.Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru .....</b>	<b>7</b>
<b>04.Ein staff a'r Cynllun.....</b>	<b>8</b>
<b>05.Y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl.....</b>	<b>10</b>
Yr awdurdod dros weithredu'r Cynllun hwn a'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith .....	10
Monitro ac adrodd yn ôl .....	10
Adolygu'r Cynllun a'i ddiweddarau .....	11
Ymdrin â chwynion .....	11
<b>Atodiad A.....</b>	<b>12</b>



## Rhagair gan Rhodri Glyn Thomas AC



Mae ieithoedd swyddogol Cymru – Cymraeg a Saesneg – yn perthyn i ni gyd, pa bynnag un y byddwn yn dewis ei defnyddio yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn rhan o'n treftadaeth, ein presennol a'n dyfodol.

Yn y Cynulliad, Cymraeg a Saesneg yw'r ieithoedd gwaith ac mae Comisiwn y Cynulliad, fel y corff sy'n gyfrifol am gefnogi gwaith y Cynulliad, yn benderfynol o roi arweiniad cryf ac uchelgeisiol wrth iddo ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Fel yr aelod o'r Comisiwn sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, roeddwn yn falch o gael mynd â'r Bil Ieithoedd Swyddogol drwy'r Cynulliad yn 2012. Fel y Ddeddf Gymreig gyntaf ers 600 o flynyddoedd, daeth Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 yn rhan o hanes Cymru ac mae'n gosod sail statudol i'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad weithredu'n ddwyieithog.

Rwy'n falch o ymrwymiad y Cynulliad, y Comisiwn a'i staff i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol. Dros y 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi darparu gwasanaethau dwyieithog arloesol sy'n parhau i bennu'r safonau i sefydliadau eraill eu dilyn.

Mae'r Cynllun hwn yn adeiladu ar y profiad uchod ac ar y ddarpariaeth yn Neddf Ieithoedd Swyddogol 2012. Mae'n diffinio'r safonau a'r gwasanaethau y gall Aelodau a'r cyhoedd eu disgwyl gennym ac yn nodi ein bwriadau mewn pedwar prif faes dros oes y Cynllun – darparu cymorth arloesol sydd wedi'i deilwra er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r ddwy iaith; gwneud y defnydd gorau o dechnoleg; datblygu sgiliau a hyder staff y Cynulliad i ddarparu'r cymorth hwnnw yn Gymraeg; a rhannu'r hyn sy'n gweithio i ni â gweddill Cymru a'r byd amlieithog tu hwnt.

Yn ei hanfod, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn sy'n galluogi'r cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad i ymgysylltu â'u Cynulliad yn Gymraeg ac yn Saesneg gan fod y ddwy iaith yn gyfartal. Gan hynny, mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer darparu ystod o wasanaethau dwyieithog cynhwysfawr a gwerthfawr.



### **Rhodri Glyn Thomas AC**

Comisiynydd yn gyfrifol am swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg.

# 01. Ein huchelgais a'n hymrwymiad

## Datganiad o uchelgais

Ein huchelgais yw darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol ac i gael ein cydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff ddewis gweithio neu gyfathrebu drwy ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol, a lle bydd y defnydd o'r ddwy iaith yn cael ei annog a'i hwyluso.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn gwasanaethu cenedl ddwyieithog lle mae bron i un o bob pump o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Rydym yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Cynulliad fel canolbwyt cenedlaethol bywyd democrataidd yng Nghymru ac yn falch o'r enw da sydd ganddo'n rhyngwladol fel sefydliad dwyieithog.

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn") yn gyfrifol am ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad. Nodau strategol y Comisiwn yw:

- darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru; a
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Mae ymrwymiad y Comisiwn i ddwyieithrwydd yn sail i lwyddiant y nodau hyn – mae ein gwasanaethau, ein strategaethau a'n dyheadau yn adlewyrchu statws cyfartal ein hieithoedd swyddogol a darpariaethau Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 ("y Ddeddf"). Mae'r darpariaethau hynny yn diwygio rhannau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn datgan mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol.

Rydym yn gwerthfawrogi ein holl staff – ni waeth beth yw lefel eu dwyieithrwydd – am yr ymrwymiad sydd ganddynt i'r Cynulliad a'u harbenigedd seneddol a phroffesiynol. Rydym yn disgwyl bod pawb wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau a'r cyhoedd yn ein dwy iaith swyddogol.

Mae gan bawb yr hawl i ryngweithio â'r Cynulliad yn eu dewis iaith swyddogol. Pan fydd rhwystrau yn atal hyn, byddwn yn gweithio i'w dymchwel fel bod y Cynulliad yn dangos dyhead parhaus i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle caiff y Gymraeg ei defnyddio a'i chlywed.

Gan hynny, byddwn:

- yn ymrwymo i ddarparu rhagor o wasanaethau dwyieithog, a gwasanaethau dwyieithog rhagorol, i Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff;
- yn gyflogwr sy'n cefnogi holl aelodau o staff y Cynulliad sydd am feddu ar rai sgiliau yn y ddwy iaith swyddogol at safon sy'n briodol i'w swydd; ac
- yn sefydliad sy'n rhannu ei brofiadau a'i wybodaeth am weithio'n ddwyieithog gyda sefydliadau eraill.



Er mwyn cyrraedd ein huchelgais o ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol, byddwn yn gweithredu mewn pedwar prif faes. Byddwn yn:

- darparu cymorth arloesol sydd wedi'i deilwra er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r ddwy iaith yng nghyd-destun busnes y Cynulliad;
- buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg fel ffordd o drawsnewid y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir wrth sicrhau gwerth am arian;
- datblygu sgiliau a hyder staff y Cynulliad i ddefnyddio'u Cymraeg; a
- rhannu ein profiadau o ddarparu gwasanaethau dwyieithog â sefydliadau eraill yng Nghymru a deddfwrfeydd eraill a cheisio dysgu ganddynt.

Mae hyn oll yn dangos ein hymrwymiad i fod yn arweinydd wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn modd arloesol.

### **Cwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol**

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i dri grŵp penodol: Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth; pobl Cymru; a staff y Cynulliad. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn monitro'r Cynllun ac yn adrodd arno yn ogystal â sut y byddwn yn ymdrin â chwynion pan fyddwn yn methu â chyrraedd y safonau rhagorol yr ydym yn eu pennu ar gyfer ein hunain.

Mae Atodiad A yn nodi:

- y gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn eu darparu ar hyn o bryd; a'r
- gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn anelu i'w darparu dros y flwyddyn nesaf, gyda dyddiadau ar gyfer cyrraedd cerrig milltir a thargedau.

## **Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo**

Byddwn yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'u staff, y cyhoedd a staff y Cynulliad yn ymwybodol o'r Cynllun hwn ac o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog drwy:

- hyrwyddo bodolaeth y Cynllun wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol fel Comisiynydd y Gymraeg er mwyn i ni allu dysgu o brofiad a hefyd rhannu ein profiad o ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol;
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gofynion y Cynllun ymysg staff yn barhaol, er enghraifft, drwy ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer pob aelod o staff;
- sicrhau bod staff Cymraeg yn barod ac wrth law ym mhob ardal gyhoeddus lle mae gan y Cynulliad bresenoldeb corfforaethol; a
- chynnwys hyrwyddo'r Cynllun yn y rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau'r Cynulliad newydd a'u staff cymorth.

Os oes angen eglurhad arnoch gan y Comisiwn am unrhyw agwedd ar y Cynllun leithoedd Swyddogol, cysylltwch â:

### **Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Tŷ Hywel**

**Bae Caerdydd**

**Caerdydd**

**CF99 1NA**

**0845 010 5500 (y switsfwrdd)**

**E-bost: [GwasanaethauDwyieithog@cymru.gov.uk](mailto:GwasanaethauDwyieithog@cymru.gov.uk)**

Mae'r Cynllun hwn ar gael mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled.

## 02. Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff

Mae'r Comisiwn yn falch o'i lwyddiannau wrth hwyluso trafodion dwyieithog a statws rhyngwladol cydnabyddedig y Cynulliad fel corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog arloesol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i alluogi unrhyw un sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad i wneud hynny naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, sef ein hieithoedd swyddogol.

Er mwyn gwneud hyn, mae'r Comisiwn yn:

- darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, yng Nghyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau'r Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog 13.2 a 17.45;
- cyhoeddi dogfennau cyhoeddus sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Cynulliad yn y ddwy iaith swyddogol yn unol â'r manylion yn Atodiad A a gofynion y Rheolau Sefydlog a gofynion statudol;
- darparu deunydd dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad ac yn cynnig y gallu iddynt gyfathrebu'n ddwyieithog â'i gilydd a chyda'r cyhoedd at ddibenion trafodion ffurfiol y Cynulliad. Yn hynny o beth, byddwn yn ceisio dod o hyd i ffyrdd ymarferol o gynyddu'r ystod o gymorth dwyieithog y byddwn yn ei gynnig i Aelodau, ac yn gwella effeithiolrwydd y cymorth hwnnw; ac yn
- darparu cyfleusterau a gwersi iaith pwrpasol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff, ac yn cynnig cymorth iddynt ddatblygu eu sgiliau mewn cyd-destun proffesiynol.

Nid yw'r Cynllun hwn yn cynnwys Aelodau yn rhyngweithio â'u hetholwyr, ond bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu adnoddau er mwyn sicrhau y gall Aelodau ymdrin ag etholwyr yn newis iaith swyddogol eu hetholwyr.

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012), byddwn yn cyhoeddi cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn (Cofnod y Trafodion). Mae'r Comisiwn yn flaengar yn ei ddefnydd o dechnoleg cyfieithu peirianyddol, sy'n cynorthwyo â'r gwaith o gyfieithu testunau ysgrifenedig mewn modd amserol a chosteffeithiol, gan gynnwys cyhoeddi Cofnod y Trafodion. Mae datblygu'r dechnoleg hon yn hanfodol ar gyfer trawsnewid ein dull o weithio fel sefydliad dwyieithog. Ein nod yw buddsoddi ymhellach mewn cyfieithu peirianyddol a systemau technoleg gwybodaeth (TG) eraill a fydd, ar y cyd â'n sicrwydd ansawdd a phrawfddarllen rhagorol, yn cryfhau ein darpariaeth ar gyfer holl ofynion deunydd dwyieithog y Cynulliad.

Rydym wedi nodi rhai o'r prif feysydd i'w datblygu o ran gwasanaethau a ddarparwn i Aelodau. Byddwn yn:

- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i gyfieithu deunydd ysgrifenedig yn gyflymach ac yn fwy effeithlon;
- darparu rhagor o ddeunydd Cymraeg a chymorth i Aelodau yn amserol er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod trafodion y Cynulliad os ydynt yn dymuno gwneud hynny;
- datblygu ein hyfforddiant i Aelodau i fod yn esiampl i eraill i'w dilyn; ac
- ystyried sut y gallwn wella'r cymorth a ddarparwn i Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i gyflawni eu gwaith drwy gyfrwng eu dewis iaith swyddogol, a hynny mewn sefyllfaoedd ar wahân i drafodion swyddogol y Cynulliad.

## 03. Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r safon uchaf i'r cyhoedd.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ieithoedd Swydddogol 2012) yn gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i alluogi'r cyhoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cynulliad – boed hynny wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy ohebiaeth – yn eu dewis iaith swydddogol.

Pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, byddwn yn eu hannog i fodloni'r safonau yr ydym yn eu pennu ar ein cyfer ein hunain.

Bydd gofyn i unrhyw gontractau neu drefniadau rhwng y Comisiwn a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwyio, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gydymffurfio â rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, neu'n diwygio gwasanaethau presennol yn llwyr, byddant yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Rydym wedi nodi'r prif feysydd, ymhlith y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i ddinasyddion Cymru, i'w datblygu dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn:

- gwella'r croeso dwyieithog a gaiff ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad;
- datblygu ein gallu i ymgysylltu â chyfryngau Cymraeg ac yn darparu deunydd Cymraeg ar gyfer darparwyr gwybodaeth gyhoeddus; ac yn
- sicrhau bod ein contractwyr yn deall ein hymrwymiad i hyrwyddo dwyieithrwydd a'n bod yn chwilio am gyfleoedd i wella ein gwasanaethau dwyieithog.

## 04. Ein staff a'r Cynllun

Mae'r Comisiwn yn cyflogi tua 375 o staff ac mae tua thraean ohonynt yn ddwyieithog. Mae cynnydd blynyddol wedi bod yng nghyfradd ein siaradwyr Cymraeg ers 2007, yn enwedig yn ein gwasanaethau rheng flaen.

Bydd Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ein helpu i reoli ein hadnoddau sgiliau, ac i ystyried y fframwaith cenedlaethol sydd wedi'i bennu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y ddogfen "Recriwtio: Ystyried y Gymraeg".

Byddwn yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i ddeall gofynion y Ddeddf, y Cynllun leithoedd Swyddogol a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a sut y maent yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn.

Byddwn yn sicrhau:

- bod gwersi Cymraeg wedi'u teilwra yn cael eu cynnig i bob aelod o staff, gan gynnwys gwersi gloywi iaith i siaradwyr Cymraeg;
- bod unrhyw ohebiaeth sydd wedi'i hanelu at yr holl staff - mewnwyd y staff, negeseuon e-bost at yr holl staff - yn ddwyieithog;
- bod aelodau o staff yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar gyfer yr holl staff yn eu dewis iaith swyddogol;
- pan fo'n bosibl, bod meddalwedd TG ar gael i staff yn y naill iaith swyddogol neu'r llall, a bod argaeledd y gwasanaeth hwnnw yn cael ei hyrwyddo;
- bod y gwasanaeth prawfddarllen yn cael ei hybu fel bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo y cânt eu hannog a'u cefnogi i ddrafftio dogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny;
- bod holl ddogfennau corfforaethol yr adran Adnoddau Dynol a'r adran Gyllid ar gael yn ddwyieithog; a
- bod y defnydd o gyfieithu peirianyddol yn cael ei gynyddu o dan yr amgylchiadau priodol.

Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff y Cynulliad:

- fod yn gwbl ymroddedig i roi'r Cynllun hwn ar waith a darparu'r gwasanaethau dwyieithog sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad A, gan barchu hawliau Aelodau, cydweithwyr a'r cyhoedd i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol;
- hyrwyddo darpariaethau'r Cynllun a hawliau pobl i ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol;
- mynd ar gyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i ddeall y cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol sy'n sail i ddatblygiad y Cynllun hwn a'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gennym; a
- datblygu gwasanaethau newydd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf a'r Cynllun.

Rydym yn disgwyl i Fwrdd Rheoli staff y Cynulliad:

- ystyried gofynion y Ddeddf a'r Cynllun hwn yn flynyddol drwy ddatblygu cynlluniau iaith ar gyfer pob gwasanaeth a chyfrannu at ddatblygu ein hadroddiad blynyddol ar roi'r Cynllun ar waith;
- arwain drwy esiampl a chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau dwyieithog a gynigiwn yn barhaus a mynd i'r afael ag unrhyw achosion pan fydd y ddarpariaeth islaw'r safon ddisgwyliedig;
- llywio datblygiad ein cyfleoedd hyfforddiant iaith yn seiliedig ar anghenion y busnes; ac
- annog staff i ddefnyddio'r hyfforddiant iaith yn unol â'r anghenion busnes.

Rydym wedi nodi chwe maes allweddol y gwasanaethau corfforaethol dwyieithog i'w datblygu. Byddwn yn:

- edrych ar sut y gall meddalwedd cyfieithu a TGCh alluogi rhagor o staff i weithio'n ddwyieithog;
- darparu rhagor o gymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg sydd am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach;
- darparu rhagor o gymorth wedi'i deilwra i siaradwyr Cymraeg i fagu hyder i siarad, gohebu a drafftio dogfennau yn Gymraeg;
- cymryd camau i barhau i gynyddu'r cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- edrych ymhellach ar gyfleoedd i wneud y Gymraeg yn ganolog i weithdrefnau, systemau ac arferion mewnol; ac
- ystyried sut y mae ein prosesau cynllunio, ein cyfleoedd hyfforddi a'n dull o recriwtio yn rhoi ystyriaeth lawn i'r angen am sgiliau dwyieithog yn yr holl sefydliad ar y cyd â blaenoriaethau busnes allweddol eraill.

## 05. Y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl

### Yr awdurdod dros weithredu'r Cynllun hwn a'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn awdurdodi'r Cynllun hwn ac yn rhoi cymorth a chymeradwyaeth lwyr iddo.

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff y Cynllun hwn ei roi ar waith. Uwch-aelod o'r tîm rheoli fydd yn gyfrifol am gydgyssylltu, monitro a, phan fo angen, cynghori ar ddiwygio cynnwys y Cynllun. O ddydd i ddydd, Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun a chydgyssylltu â chydgyssylltydd pob gwasanaeth i wella ystod ac amseriad ein gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol.

Staff y Cynulliad sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mesurau yn y Cynllun ac am gydymffurfio â hwy wrth iddynt wneud eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu i staff i'w galluogi i gyflawni gofynion y Cynllun.

Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo dros:

- weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith;
- annog staff i ddefnyddio eu sgiliau iaith;
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ethos dwyieithog y Cynulliad, a'r uchelgais a'r gwasanaethau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun; a
- nodi dulliau neu gymorth a allai gynorthwyo staff i ddefnyddio'u sgiliau iaith.

Bydd pob gwasanaeth yn y Cynulliad yn enwebu Cydgysylltydd y Cynllun a fydd yn gyfrifol am:

- gynnig cyngor ar roi'r Cynllun ar waith o fewn ei wasanaeth;
- adolygu'r cynnydd yn erbyn gofynion y Cynllun bob chwarter blwyddyn drwy Fforwm Cydgysylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol; ac
- ystyried unrhyw newidiadau, gwelliannau neu syniadau a fydd yn cyfrannu at ein huchelgais o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

### Monitro ac adrodd yn ôl

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod adroddiad gerbron y Cynulliad sy'n nodi sut y mae'r Comisiwn wedi rhoi'r Cynllun ar waith yn ystod y flwyddyn o dan sylw.

Rhaid i'r adroddiad cydymffurfio blynyddol nodi i ba raddau, os o gwbl, y darparwyd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y Cynllun hwn a'r Atodiad ac, os yn berthnasol, y rhesymau pam na ddarparodd y Comisiwn y gwasanaethau hynny. Byddwn hefyd yn monitro cydymffurfiaeth pob gwasanaeth unigol â'r Cynllun.

Bydd monitro cydymffurfiaeth yn flynyddol yn sicrhau bod ein dull o ddarparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau a'r cyhoedd yn dryloyw, ac yn eu galluogi i ddwyn y



Comisiwn i gyfrif wrth i ni roi'r Cynllun ar waith. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth i'r Comisiwn a fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.

## Adolygu'r Cynllun a'i ddiweddarau

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu yn unol â pharagraff 8(9) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (yn sgîl adran 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012.

Bydd y Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad ar unrhyw ddiwygiad i'r Cynllun hwn a Chynlluniau drafft yn y dyfodol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol. Ni ellir mabwysiadu diwygiadau i'r Cynllun oni bai fod y copïau drafft:

- wedi'u cyhoeddi a'u gosod gerbron y Cynulliad;
- ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bod unrhyw sylwadau wedi'u hystyried;
- wedi'u hailosod gerbron y Cynulliad; ac
- wedi'u cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

## Ymdrin â chwynion

Rydym am i'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad ein hysbysu ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt, gan gynnwys enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r Cynllun, cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i unioni'r sefyllfa ac i wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Byddwn yn ymdrin â chwynion yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Gwynion.

Os oes gennych bryder neu gŵyn, dylech godi'r mater gyda'r swyddog y buoch yn ymdrin ag ef yn y lle cyntaf. Os na fydd hyn yn tawelu eich pryderon yn ddigonol, dylech wneud cwyn swyddogol. Gallwch wneud hyn drwy e-bost, ffacs, llythyr neu drwy lenwi ein **ffurflen gwyno**. Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, neu berson arall a enwebwyd ganddo, fydd yn ymchwilio i'r gŵyn a byddwn yn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y gŵyn i law. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, gallwch ofyn i'r mater gael ei adolygu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Atodiad A

Y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn ein hieithoedd swyddogol a'n blaenoriaethau yn y cyfnod rhwng mis Medi 2013 a mis Gorffennaf 2014.

### Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

#### Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor

Mae unrhyw ddogfennau a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Rheol Sefydlog 15.4.

Mae unrhyw filiau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gael yn y ddwy iaith swyddogol, ar wahân i'r rhai a ystyrir o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn Rheol Sefydlog 26.5.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r dogfennau ategol a ganlyn ar gael yn gydamserol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd er mwyn cynorthwyo'r Aelodau â'u gwaith pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn:

#### Ar gyfer pwyllgorau:

- agendâu a phapurau ategol ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol sydd wedi'u paratoi gan staff y Cynulliad;
- biliau a gyflwynir i'r Cynulliad;
- crynodebau o filiau;
- rhestrau o'r termau technegol a ddefnyddir mewn biliau;
- nodiadau ymchwil;
- papurau ymchwil;
- Hysbysiadau Hwylus; a'r
- wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau'r UE.

#### Ar gyfer y Cyfarfod Llawn:

- agendâu yn cynnwys papurau ategol, cwestiynau a chynigion a gyflwynwyd;
- papurau briffio cyfreithiol; a
- phapurau ymchwil.

Pan nad ydym yn cyrraedd y safon hon, byddwn yn nodi'r eithriadau ac yn ystyried dulliau amgen er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol.

Bydd pwyllgorau yn gofyn o'r cychwyn cyntaf am ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a/neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog.

Pan nad yw'n bosibl sicrhau dogfennau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti yn y ddwy iaith, rydym yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd, gan nodi y daeth y dogfennau i law yn yr iaith honno yn unig. Caiff dogfennau Cymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg at ddefnydd yr Aelodau.

Mae papurau ategol eraill a ddarperir gan drydydd parti, gan gynnwys gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (e.e. atebion i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig), yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd. Rydym yn dibynnu ar sefydliadau eraill i weithredu eu polisiâu eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol hwy.

Bydd yr ohebiaeth rhwng y Llywydd a holl Gadeiryddion y pwyllgorau yn ddwyieithog. Mae llythyrau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Mater i Gadeiryddion y pwyllgorau yw iaith yr ohebiaeth rhwng Cadeiryddion unigol y pwyllgorau.

### **Cynnal y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor**

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad yn cael eu hannog i ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol.

Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i Aelodau'r Cynulliad, tystion a staff y Cynulliad sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad neu'n eu cefnogi.

Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i ymwelwyr yn orielau cyhoeddus ac ystafelloedd pwyllgora y Senedd a Thŷ Hywel. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael pan gynhelir cyfarfodydd pwyllgor mewn rhannau eraill o ystâd y Cynulliad neu oddi ar ystâd y Cynulliad.

Gall y cyhoedd ddilyn trafodion y Cynulliad yn yr iaith wreiddiol neu wrando ar gyfieithiad ohonynt (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar senedd.tv.

Gall Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad ddilyn trafodion y Cynulliad yn yr iaith wreiddiol neu wrando ar gyfieithiad ohonynt (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar y sianel deledu fewnol.

Mae ein cyfleusterau fideogynadledda yn caniatáu i Aelodau a thystion ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol yn ystod trafodion pan fydd hynny yn dechnegol bosibl.

### **Cofnodi'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor**

Mae fersiwn dreigl nad yw wedi'i golygu o Gofnod y Trafodion ar gael ar fewnwyd y Cynulliad o tua 16.00 ymlaen ar yr un diwrnod.

Mae fersiwn wedi'i golygu o Gofnod y Trafodion yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad o fewn 24 awr i ddiwedd y Cyfarfod Llawn. Mae'n cynnwys cyfraniadau yn yr iaith swyddogol ddewisol gyda'r cyfraniadau Cymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg.

Pan ddefnyddir deunydd fideo yn ystod y Cyfarfod Llawn, mae hyperlinc i'r deunydd a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yng Nghofnod y Trafodion ynghyd â thrawsgrifiad o unrhyw gyfraniadau llafar.

Mae Cofnod y Trafodion dwyieithog llawn wedi'i olygu, gan gynnwys cyfieithiadau o'r cyfraniadau Saesneg i'r Gymraeg, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ac o fewn pum niwrnod gwaith.

Mae trawsgrifiadau drafft wedi'u golygu o drafodion y pwyllgorau, gyda chyfraniadau yn Gymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg, yn cael eu cyhoeddi ar-lein o fewn 10 diwrnod gwaith.

Mae trawsgrifiadau terfynol wedi'u golygu o drafodion y pwyllgorau, gyda chyfraniadau yn Gymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg, yn cael eu cyhoeddi ar-lein o fewn 14 diwrnod gwaith.

Pan ddefnyddir deunydd fideo yn ystod trafodion pwyllgor, mae hyperlinc i'r deunydd a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yn y trawsgrifiad o'r pwyllgor ynghyd â thrawsgrifiad o unrhyw gyfraniadau llafar gan gynnwys cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg.

### **Cymorth i Gomisiwn y Cynulliad**

Mae dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi ac sy'n ymwneud â busnes Comisiwn y Cynulliad ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Mae deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad a'r cyhoedd ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Mae Comisiwn y Cynulliad yn ymateb i bob eitem o ohebiaeth gan y cyhoedd yn newis iaith y sawl sy'n gohebu o fewn 15 diwrnod gwaith. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad ar gais.

### **Cyfarfodydd eraill ar ystâd y Cynulliad**

Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol ar gais.

### **Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad**

Rhoddir cyfeiriadau e-bost i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn y ddwy iaith swyddogol [enw.cyfenw@cymru.gov.uk](mailto:enw.cyfenw@cymru.gov.uk) a [name.surname@wales.gov.uk](mailto:name.surname@wales.gov.uk).

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r dogfennau ategol a ganlyn ar gael yn gydamserol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu cynorthwyo â'u gwaith o ran cynrychioli buddiannau eu hetholwyr:

- taflenni gwybodaeth i etholwyr;
- papurau ymchwil;
- nodiadau ymchwil; a
- Hysbysiadau Hwylus.

Gall Aelodau'r Cynulliad gyflwyno ymholiadau ar gyfer gwaith ymchwil yn eu dewis iaith swyddogol, a bydd y Gwasanaeth Ymchwil yn ymateb yn yr un iaith.

Aelodau unigol sy'n penderfynu pa iaith swyddogol y maent yn ei dewis ar gyfer cyfathrebu neu ohebu â'r cyhoedd. Mae cymorth ar gael ar gyfer y math hwn o waith drwy'r gronfa ar

gyfer cyfieithu gwaith etholaethol.

Mae cymorth i gyfathrebu ag etholwyr yn yr ieithoedd eraill a siaredir yng Nghymru ar gael drwy'r Gronfa Fynediad.

Caiff unrhyw ddeunyddiau (fel papur â phennawd, cardiau busnes a hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd) nad ydynt yn wleidyddol eu natur ac sydd wedi'u hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

### **Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg**

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwmo i ddarparu gwersi Cymraeg sydd wedi'u teilwra at anghenion Aelodau unigol a'u staff cymorth.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu amylchedd dysgu i'r Aelodau a'u staff cymorth – yr Ystafell Gymraeg – yn y Senedd, sy'n helpu Aelodau i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg, boed hynny drwy addysgu, hyfforddi neu ddefnyddio adnoddau yn eu hamser eu hunain.

Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth hon o ran hyfforddiant i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn flynyddol.

Gellir ffurfwedu ein system weithredu (Windows 7) i'w defnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Mae Cysgliad ar gael i bob Aelod Cynulliad a'u staff cymorth o'r dechrau. Mae rhyngwyneb system Medialon a system gwaith achos y Cynulliad ar gael i Aelodau yn eu dewis iaith swyddogol.

### **Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad**

Rydym yn darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg o fewnwyd yr Aelodau.

Rydym yn anelu at gyfathrebu ag Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â thrafodion ffurfiol y Cynulliad yn eu dewis iaith neu'n ddwyieithog.

Mae gohebiaeth a anfonir at holl Aelodau'r Cynulliad fel grŵp bob amser yn ddwyieithog.

Mae'r arwyddion dros dro a pharhaus a phosteri a thafleddi gwybodaeth y mae'r Comisiwn yn eu darparu ar ystâd y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog ac yn gydamserol. Mae'r testun Cymraeg yn ymddangos gyntaf neu ar y brig. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân, maent yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.

Mae posterï neu daflenni gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti, ac sy'n cael eu harddangos ar hysbysfyrddau ar ystâd y Cynulliad yn ddwyieithog neu, os nad oes fersiwn Cymraeg wedi ei darparu, yn Saesneg yn unig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau sydd â safonau iaith Gymraeg neu gynllun mewn perthynas â'r iaith weithredu yn unol â'r ddarpariaeth yn y safonau neu gynllun mewn perthynas â gwybodaeth gyhoeddus a'u delwedd gyhoeddus.

Er mwyn sicrhau bod dogfennau o dan frand y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd, mae canllawiau wedi eu diweddarau, a thempledi pan fo'n briodol, ar gael ar gyfer staff.

Wrth ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, byddwn yn trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal a bydd hyn yn dod yn rhan annatod o'r prosesau cynllunio.

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2013-2014**

**Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i gyfieithu dogfennau yn gynt ac yn fwy effeithlon, gan ddefnyddio'r dechnoleg honno i symud tuag at sefyllfa lle bydd mwy o ddogfennau, gan gynnwys Cofnod y Trafodion, ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd.**

- Byddwn yn ymchwilio'n fanwl i'r posibilrwydd o fuddsoddi mewn system cyfieithu peiranyddol pwrpasol i'n galluogi i gyfieithu mwy o ddeunydd yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.

***Targed: gwaith prosiect cychwynnol i'w gwblhau erbyn mis Hydref 2013.***

- Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio cyfieithu peiranyddol nid yn unig gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi ond gan aelodau eraill o staff y Cynulliad, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad.

***Targed: gwaith prosiect cychwynnol i'w gwblhau erbyn mis Hydref 2013.***

- Byddwn yn parhau i drafod â'r Canolfannau Rhagoriaeth yng Nghymru yn arbennig y sector addysg uwch yng Nghymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, i gael y budd gorau posibl o'r datblygiadau diweddaraf yn nhechnoleg iaith a chyfieithu.

***Targed: parhaus.***

**Byddwn yn sicrhau bod Aelodau'n cael mwy o ddeunyddiau a chymorth cyfrwng Cymraeg i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod trafodion.**

- Byddwn yn cynnal adolygiad blynyddol o anghenion Cymraeg yr Aelodau yng nghydestun trafodion y Cynulliad, yn adolygu'r cymorth a ddarperir iddynt ar y sail hon ac yn datblygu gwasanaethau newydd yn unol â hyn.

***Targed: cwblhau'r adroddiad cychwynnol erbyn mis Gorffennaf 2013 fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r gefnogaeth a ddarperir i bwyllgorau ac yna'n flynyddol yn gysylltiedig â'r arolwg blynyddol i Aelodau.***

- Byddwn yn treialu modelau amgen o gefnogaeth i Aelodau gyda'u gwaith pwyllgor dwyieithog fel rhan o adolygiad cyfredol y Comisiwn o gymorth i'r pwyllgorau. Fel sail i'r gwaith peilot hwn, byddwn yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o drafodaethau gydag Aelodau a'u staff a byddwn yn cynnal ymarfer dadansoddi busnes ar gyfer y prosesau a ddefnyddir gan bob gwasanaeth i baratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor. Gall arloesi gynnwys:
  - ehangu'r geirfaeod a gynhyrchir sy'n cwmpasu termau technegol a ddefnyddir mewn ymchwiliadau pwyllgorau i bolisi;
  - awgrymu cwestiynau a, phan fo'n bosibl, rhannau eraill o bapurau briffio

pwyllgorau yn gydamserol yn y ddwy iaith;

- ymchwilio i ffyrdd o ddarparu briff ar lafar i Aelodau sy'n dymuno siarad Cymraeg cyn y cyfarfod pwyllgor ei hun;
- cytuno ag Aelodau unigol, cyn cyfarfodydd ffurfiol, y rhannau allweddol o bapurau briffio pwyllgor a ddylai fod ar gael yn Gymraeg; ac
- ymchwilio i ffyrdd eraill o ddarparu mwy o bapurau briffio cyfreithiol a phapurau ymchwil yn Gymraeg yn gyffredinol.

***Targed: treialu cynlluniau peilot o fis Medi 2013.***

- Byddwn yn trafod modelau amgen o gefnogi Aelodau gyda'u gwaith dwyieithog yn y Cyfarfod Llawn gydag Aelodau a'u staff ac yn eu rhoi ar waith pan fydd hynny'n bosibl.

***Targed: o fis Medi 2013.***

- Byddwn yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella ein cyfleusterau fideogynadledda.

***Targed: cwblhau'r prosiect cychwynnol erbyn mis Mawrth 2014.***

**Byddwn yn gwella'r cymorth sydd ar gael i Aelodau ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.**

- Byddwn yn adolygu yn flynyddol anghenion dysgu Aelodau o ran y Gymraeg er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli neu wasanaethau newydd sy'n eu cynorthwyo gyda'u gwaith.

***Targed: yr archwiliad cyntaf i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2014 ac yna'n flynyddol.***

- Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol fel sail i'r ymarfer caffael nesaf (2014) ar gyfer hyfforddiant iaith arbenigol i Aelodau.

***Targed: i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013.***

- Byddwn yn datblygu rhaglen o gyfleoedd dysgu Cymraeg i gefnogi'r contract newydd ar gyfer yr hyfforddiant iaith hwnnw.

***Targed: erbyn diwedd 2014.***

- Byddwn yn darparu bathodynau "Rwy'n dysgu Cymraeg" i Aelodau a'u staff cymorth ac yn cynllunio mentrau sy'n annog Aelodau i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

***Targed: erbyn mis Medi 2013.***

- Byddwn yn datblygu ystod o ddulliau ar gyfer addysgu Cymraeg i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

***Targed: I fod ar gael o fis Medi 2013.***

- Pan nad ydym yn cyrraedd y safonau a amlinellir yn yr adran hon, byddwn yn nodi'r eithriadau ac yn ystyried dulliau amgen er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol.

***Targed: sefydlu system fonitro erbyn mis Medi 2013.***

## Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

### Gohebu â'r cyhoedd (e-bost neu gopi caled)

Rydym yn ymateb i bob eitem o ohebiaeth gan y cyhoedd yn newis iaith y sawl sy'n gohebu o fewn 15 diwrnod gwaith.

Anfonir unrhyw ohebiaeth yn dilyn cyfarfod neu alwad ffôn yn iaith y drafodaeth wreiddiol oni bai ein bod yn ymwybodol y byddai'n well gan y derbynnydd gael yr ohebiaeth yn yr iaith swyddogol arall, neu yn ddwyieithog.

Mae gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at fwy nag un derbynnydd yng Nghymru yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.

Pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth eu cyhoeddi ar wahân, mae'r ddwy fersiwn ar gael yn gydamserol ac yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.

Mae llofnod awtomatig staff y Cynulliad, a negeseuon sy'n nodi na fyddant yn y swyddfa, yn ddwyieithog. Mae templedi ar gael i sicrhau bod y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran safon, fformat a maint. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig.

Er mwyn sicrhau bod dogfennau o dan frand y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog a'u bod yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd, mae canllawiau wedi eu diweddarau, a thempledi pan fo'n briodol, ar gael i staff.

Gellir cysylltu â staff y Cynulliad ar gyfeiriadau e-bost yn y naill iaith swyddogol neu'r llall: [enw.cyfenw@cymru.gov.uk](mailto:enw.cyfenw@cymru.gov.uk) a [name.surname@wales.gov.uk](mailto:name.surname@wales.gov.uk).

### Galwadau ffôn

Caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n cysylltu â'r switsfwrdd neu'r dderbynfa yn Nhŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead neu Swyddfa Gogledd Cymru ei gyfarch yn ddwyieithog.

Anogir staff i ateb y ffôn yn ddwyieithog. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cymorth digonol ar gael i'w galluogi i wneud hynny.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i sgwrsio â staff y Cynulliad yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Bydd staff yn rhoi gwybod i siaradwyr Cymraeg os nad ydynt yn gallu sgwrsio yn Gymraeg. Pan fydd aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg yn ymateb i alwad gan siaradwr Cymraeg, rydym yn disgwyl iddo esbonio nad yw'n siarad Cymraeg a chynnig parhau â'r sgwrs yn Saesneg neu drosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg.

Mae neges ffôn ddwyieithog ar beiriannau ateb ein prif switsfwrdd a'n derbynfeydd.

### Ein delwedd gyhoeddus

Rydym yn defnyddio dulliau hysbysebu, cyhoeddusrwydd ac ymgyrchu, neu dulliau eraill o ymgysylltu, sy'n targedu'r cyhoedd yn ddwyieithog. O bryd i'w gilydd, gall hyn olygu cael deunyddiau neu gynnyrch Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac maent bob amser ar gael yn gydamserol. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân, maent yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac



amlygrwydd.

Er bod ein hunaniaeth gorfforaethol yn un ddwyieithog, mae'r lleoliadau a ganlyn yn cael eu hadnabod o dan un enw yn y ddwy iaith swyddogol:

- y Senedd a manau penodol oddi mewn iddi - y Neuadd, y Cwrt, yr Oriol a'r Siambr;
- Tŷ Hywel; Siambr Hywel; ac
- y Pierhead.

### **Gwasanaethau ymgysylltu a gwybodaeth gyhoeddus**

Mae datganiadau i'r wasg a gwybodaeth i'r wasg yn gyffredinol yn ddwyieithog. Darperir eitemau arbennig ar gyfer aelodau unigol o'r wasg yn eu dewis iaith swyddogol.

Mae gwybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei chyhoeddi ar ddwy wefan, un yn Gymraeg, [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org), a'r llall yn Saesneg, [www.assemblywales.org](http://www.assemblywales.org).

Mae holl ddogfennau gwybodaeth gyhoeddus a baratoir gan y Cynulliad sydd ar gael i'w llwytho o'n gwefannau yn ddwyieithog.

Mae ein ffrydiau o ran cyfryngau cymdeithasol ar gael yn ddwyieithog, naill ai drwy un cyfrif dwyieithog neu drwy gyfrifon Gymraeg a Saesneg ar wahân. At ddibenion chwilio a mynegeo, caiff y wybodaeth ar rai o'n proffiliau yn y cyfryngau cyhoeddus ei chyhoeddi yn Saesneg yn gyntaf ac yn Gymraeg yn ail.

Rydym yn ymateb i ymholiadau ar ein holl broffiliau yn y cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith y'u cyflwynwyd, pa bynnag fersiwn o'r proffil a ddefnyddir (er enghraifft, byddwn yn ymateb i ymholiad yn Gymraeg, ar y dudalen Facebook Saesneg, yn Gymraeg).

Byddwn yn cyflwyno unrhyw ddatblygiadau ar-lein newydd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Mae fideos gwybodaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog.

At ddibenion busnes pwyllgorau, caiff tystiolaeth fideo ei darlledu yn yr iaith wreiddiol gydag is-deitlau Saesneg i gydfynd â chyfraniadau Gymraeg. Bydd trawsgrifiadau o ddeunydd ffilm ar gael yn yr iaith wreiddiol gyda chyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Mae unrhyw raglenni (aps) yr ydym yn eu creu ar gyfer dyfeisiau symudol ar gael yn ddwyieithog.

Ar gyfer yr holl gyfarfodydd, seminarau, digwyddiadau neu arddangosfeydd corfforaethol cyhoeddus a drefnir gan staff y Cynulliad, rydym yn:

- cynhyrchu gwahoddiadau a hysbysiadau dwyieithog;
- darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n debygol o fod yn bresennol yn y digwyddiad fod y cyfleuster hwn ar gael er mwyn eu hannog i gyfrannu yn eu dewis iaith swyddogol;
- darparu papurau ategol, unrhyw adroddiadau dilynol a gwybodaeth arall yn ddwyieithog;

– gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ym mhob cyfarfod/digwyddiad.

Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol pan fyddwn yn mynychu digwyddiadau a drefnir gan drydydd parti.

### **Ceisiadau rhyddid gwybodaeth**

Pan rydym yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu yn yr iaith wreiddiol neu'r ieithoedd gwreiddiol - ni fyddwn yn cyfieithu'r wybodaeth hon. Caiff ymatebion y Comisiwn i geisiadau eu cyhoeddi ar ein log datgelu ar-lein yn ein hieithoedd swyddogol.

### **Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol**

Gall y cyhoedd sgwrsio â staff rheng flaen naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y manau cyhoeddus hynny a reolir gan Gomisiwn y Cynulliad (y Senedd, y Pierhead, Tŷ Hywel a Swyddfa Gogledd Cymru, ac mewn cyfarfodydd pwyllgor a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir oddi ar y safle).

O bryd i'w gilydd, nid yw'n bosibl sicrhau presenoldeb siaradwyr Cymraeg fel rhan o'n gwasanaethau diogelwch ond rydym wedi ymrwmo i wella sgiliau Cymraeg y staff sy'n cynnig y gwasanaethau hyn, a bydd egwyddorion y Cynllun hwn yn cael eu hystyried wrth gynllunio hyfforddiant i staff ac ymarferion recriwtio yn y dyfodol.

Mae ymweliadau addysgol a theithiau o amgylch y Senedd ar gael yn y naill iaith swyddogol neu'r llall a rhai ieithoedd eraill. Caiff ymwelwyr y cyfle i ddewis iaith wrth drefnu ymweliad.

Mae teithiau o amgylch y Senedd ar fyr rybudd ar gael yn ein hieithoedd swyddogol a rhai ieithoedd eraill.

Mae cyhoeddiadau clywedol dros y system gyhoeddiadau cyhoeddus ar yr ystâd, gan gynnwys y lifftiau, yn ddwyieithog.

Gall ymwelwyr â Chaffi'r Senedd a'r siop ddisgwyl cael eu gweini yn ddwyieithog.

### **Digwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelodau'r Cynulliad ar ystâd y Cynulliad**

Disgwylir i sefydliadau sydd â chynlluniau neu safonau iaith Gymraeg sy'n cynnal digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad ac sy'n targedu Aelodau'r Cynulliad neu'r cyhoedd, weithredu yn unol â'r safonau neu'r cynlluniau hynny mewn perthynas â gwybodaeth gyhoeddus a'u delwedd gyhoeddus.

Anogir sefydliadau nad oes ganddynt gynllun neu safonau iaith i weithredu yn unol ag egwyddorion y Cynllun hwn. Nid yw'r Cynulliad yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddeunyddiau uniaith ar gyfer digwyddiadau a noddir gan Aelodau Cynulliad ar y cyd â sefydliadau allanol ar yr ystâd.

## Gweithio mewn partneriaeth

Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu fel arweinydd strategol a chyllidol o fewn partneriaeth ffurfiol, e.e. cynllun mentora Camu Ymlaen Cymru, bydd elfennau o wasanaeth cyhoeddus y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.

Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan sefydliad arall, bydd mewnbwn y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Byddwn yn annog partneriaid eraill i gydymffurfio ag egwyddorion y Cynllun hwn.

Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn dod yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r Cynllun hwn.

Caiff dogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol ag unigolion, sefydliadau neu grwpiau eu cynnig yn ddwyieithog, oni bai fod cais yn dod i law iddynt gael eu cyflwyno mewn un iaith swyddogol.

## Gwasanaethau trydydd parti

Mae unrhyw gontract neu drefniant rhwng Comisiwn y Cynulliad a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Caiff gwybodaeth ei darparu i gyflenwyr yn ystod y broses dendro sy'n nodi sut y bydd angen iddynt gydymffurfio â'r Cynllun hwn wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau. Bydd hyn yn cael ei wneud yn ysgrifenedig ar ddechrau'r broses er mwyn sicrhau bod y ceisiadau a'r prisiau yn cael eu cyflwyno ar sail gyfartal a chyson. Bydd yn ofynnol i gyflenwyr nwyddau neu wasanaethau adrodd ar y modd y maent yn cydymffurfio â rhannau perthnasol o'r Cynllun yn unol â'r cymal(au) perthnasol yn y cytundeb/contract/archeb rhwng y Comisiwn a'r contractwr unigol.

Anfonir gwahoddiadau i gyflwyno tendr at gyflenwyr yn eu dewis iaith, pan fydd hynny'n hysbys. Oni bai fod pob un sy'n cymryd rhan yn y broses yn deall Cymraeg, at ddibenion gwerthusiad mewnol, caiff unrhyw geisiadau ar gyfer tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn unig eu cyfieithu.

## Datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd

Wrth ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer y cyhoedd, byddwn yn trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal, a bydd hyn yn dod yn rhan annatod o'r prosesau cynllunio. Bydd gwasanaethau newydd i'r cyhoedd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2013-2014

**Byddwn yn datblygu ein gallu i groesawu, cyfarch a gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg.**

– Bydd cyfarchiad dwyieithog ar beiriannau ateb pob aelod o staff. Byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i recordio negeseuon ffôn dwyieithog eu hunain.

***Targed: erbyn mis Ionawr 2014.***

- Byddwn yn datblygu'r lefel briodol o gymorth, arweiniad a hyfforddiant i staff i'w helpu i ymateb a/neu ddrafftio gohebiaeth yn Gymraeg, gan fanteisio ar arbenigedd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

***Targed: rhoi cynllun gweithredu ar waith erbyn mis Medi 2013.***

- Byddwn yn cynyddu gallu'r tîm diogelwch i groesawu'r cyhoedd i ystâd y Cynulliad yn ddwyieithog.

***Targed: holl staff diogelwch i feddu ar sgiliau sylfaenol i gyfarch ymwelwyr yn ddwyieithog erbyn mis Rhagfyr 2013.***

- Byddwn yn cynyddu'r gallu i gynnig gwasanaethau dwyieithog yn y caffï a'r siop.

***Targed: sicrhau bod gan bob aelod o staff y caffï sgiliau dwyieithog sylfaenol i gyfarch cwsmeriaid erbyn mis Rhagfyr 2013.***

- Byddwn yn darparu bathodynau "Rwy'n dysgu Cymraeg" i staff ac yn cynllunio mentrau sy'n eu hannog i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

***Targed: erbyn mis Medi 2013.***

**Byddwn yn cynyddu ein gallu i ymgysylltu â chyfryngau cyfrwng Cymraeg ac ysgrifennu testunau Cymraeg er gwybodaeth i'r cyhoedd**

- Byddwn yn ystyried sut y gallwn gynyddu ein sgiliau drafftio testun a gohebiaeth i'r cyfryngau, a thestunau er gwybodaeth i'r cyhoedd, yn Gymraeg.
- Byddwn yn datblygu'r lefel briodol o gymorth, arweiniad a hyfforddiant i staff i'w helpu yn hyn o beth, gan fanteisio ar arbenigedd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

***Targed: cwblhau cynllun gweithredu i wella capasiti i ddrafftio yn Gymraeg erbyn mis Medi 2013.***

**Byddwn yn sicrhau bod ein contractwyr yn deall ein hymrwymiad i hybu dwyieithrwydd, a'u bod yn cydymffurfio â'r ymrwymiad hwn, ac yn chwilio am gyfleoedd i wella ein gwasanaethau dwyieithog.**

***Targed: yn weithredol erbyn mis Medi 2013.***

**Pan nad ydym yn cyrraedd y safonau a amlinellir yn yr adran hon, byddwn yn nodi'r eithriadau ac yn ystyried dulliau amgen er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol.**

***Targed: sefydlu system fonitro erbyn mis Medi 2013.***

## Gwasanaethau ar gyfer staff y Cynulliad

### Cyfathrebu â staff

Mae templedi ar gyfer dogfennaeth gorfforaethol yn ddwyieithog.

Yn unol ag ethos dwyieithog y sefydliad, mae pob neges ar ein tudalen newyddion i staff, negeseuon e-bost at yr holl staff ac arolygon staff yn ddwyieithog ac yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.

Mae aelodau o staff yn datblygu unrhyw wybodaeth newydd am eu gwasanaethau sy'n targedu staff y Cynulliad (er enghraifft, tudalennau glanio ar y fewnrwyd a gwybodaeth ar ffurf copi caled) yn ddwyieithog.

Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod i holl staff y Cynulliad.

### Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer staff y Cynulliad

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn cynnig gwasanaeth prawffdarllen testun Cymraeg i holl staff y Cynulliad.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn darparu gwybodaeth wedi ei ddiweddarau am sut mae defnyddio gwasanaethau cyfieithu testun, prawffdarllen testun a chyfieithu ar y pryd yn ystod y broses gynefino ac ar y fewnrwyd.

Gellir ffurfweddu ein system weithredu (Windows 7) i'w defnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Mae Cysgliad ar gael i bob Aelod Cynulliad a'u staff cymorth o'r dechrau.

### Sgiliau dwyieithog

Amlinellir dull Comisiwn y Cynulliad o reoli ei adnoddau dwyieithog yn ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a'i nod yw:

- sicrhau bod gennym y bobl, y sgiliau a'r cymorth priodol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni a datblygu ei ddyletswydd statudol i alluogi unrhyw un sy'n rhan o drafodion y Cynulliad i wneud hynny naill ai yn ein hieithoedd swyddogol;
- nodi'n glir ac mewn ffordd dryloyw y trefniadau ar gyfer cynllunio, datblygu a rheoli adnodd sgiliau dwyieithog y sefydliad;
- darparu ystod o gyfleoedd dysgu a hyfforddi i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn ffordd sydd bob amser wedi'i theilwra i ateb anghenion busnes, ac i'r graddau y bo hynny'n bosibl, eu hanghenion unigol.

### Staff newydd ac ymwybyddiaeth iaith

Bydd cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ar gael i holl staff y Cynulliad.

Yn ystod y broses gynefino, rydym yn sicrhau bod yr holl staff newydd yn ymwybodol o ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol.

## **Blaenoriaethau ar gyfer 2013-2014**

Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

**Targed: ymgynghoriad gyda staff o fis Gorffennaf 2013 ar gyfer lansiad ym mis Medi.**

Byddwn yn hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau a gynigir gan y Gwasanaeth Cyfieithu i sicrhau'r manteision gorau o ran y gwasanaethau rhagorol hyn.

**Targed: safle mewnwydd newydd ar gael o fis Medi 2013.**

Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd eraill o alluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

– Cynnal cynllun peilot i weld sut y gellir cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd llai er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

**Targed: o fis Medi 2013.**

– Bydd holl ffurflenni a pholisïau corfforaethol y sefydliad yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny.

**Targed: y cam cyntaf yn ystod toriad yr haf 2013. Cwblhau'r holl waith erbyn mis Medi 2014.**

Bydd unrhyw bolisi corfforaethol newydd e.e. ffurflenni a pholisïau cyllid ac Adnoddau Dynol ar gael yn y ddwy iaith swyddogol o'r cychwyn cyntaf.

**Targed: o fis Medi 2013.**

Bydd staff yn gallu defnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall wrth roi gwybodaeth a gwneud ceisiadau yn y system Adnoddau Dynol a chyflogres newydd.

**Targed: system yn weithredol o'r Hydref 2013.**

Bydd unrhyw gyfraniadau sy'n dod i law yn Gymraeg ar gyfer 'Y Llechen', cylchgrawn mewnol y staff yn ymddangos yn ddwyieithog.

**Targed: mis Mai 2013.**

Bydd cyfraniadau corfforaethol eu natur sydd yn dod i law yn Saesneg ar gyfer 'Y Llechen' yn ymddangos yn ddwyieithog.

**Targed: mis Mai 2013**

Pan nad ydym yn cyrraedd y safonau a amlinellir yn yr adran hon, byddwn yn nodi'r eithriadau ac yn ystyried dulliau amgen er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath yn y dyfodol.

**Targed: sefydlu system fonitro erbyn mis Medi 2013.**

## Monitro ac adrodd yn ôl

### Cydgysylltu'r broses o roi'r Cynllun ar waith

Bydd Rheolwr dynodedig y Cynllun leithoedd Swyddogol yn cydgysylltu'r ffordd y caiff y Cynllun ei roi ar waith a'i ddatblygu.

Bydd pob gwasanaeth yn penodi aelod o'r tim i'w cynrychioli fel cydgysylltydd y Cynllun leithoedd Swyddogol.

Bydd rhwydwaith Cydgysylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol yn cyfarfod unwaith bob chwarter i ystyried materion sydd o fewn ei gylch gwaith. Bydd y rhwydwaith yn gyfrifol am:

- arolygu'r broses o roi'r Cynllun leithoedd swyddogol ar waith a'r camau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth;
- adrodd yn ôl i'w wasanaeth ynghylch y Cynllun leithoedd Swyddogol a chydgyssylltu'r ymatebion yn ôl y gofyn;
- ystyried y meysydd a'r materion perthnasol a fydd o fudd cyffredin i wasanaethau'r Cynulliad;
- hyrwyddo a rhannu arfer da pan fo'n bodoli;
- codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth a amlinellir yn y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a'i hyrwyddo;
- cwblhau adroddiad cydymffurfio blynyddol ar ran ei wasanaeth.

### Ymddrin â chwynion ag achosion o fethu â chydymffurfio

Byddwn yn sicrhau bod pob rheolwr yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o dan y Cynllun ar ddechrau pob blwyddyn monitro perfformiad.

Bydd unrhyw gwynion ac ymatebion iddynt yn cael eu prosesu gan y gwasanaeth perthnasol ar y cyd â chydgyssylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol y gwasanaeth. Bydd cwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw ohebiaeth arall a bydd Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol yn cael gwybod amdanynt bob tro.

### Yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol

Y Rheolwr Cynllun leithoedd Swyddogol fydd yn gyfrifol am gydgysylltu ein hadroddiad cydymffurfio blynyddol a bydd hwnnw'n cael ei baratoi er mwyn i'r Cynulliad ei ystyried yn unol â pharagraff 8(9) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad i'w ystyried ym mis Gorffennaf bob blwyddyn tra bod y Cynllun hwn yn weithredol.

## **Blaenoriaethau ar gyfer 2013-2014**

### ***Byddwn yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu priodol ar waith er mwyn monitro'r broses o weithredu'r Cynllun.***

- Bydd pob gwasanaeth yn penodi cydgysylltydd dynodedig ar gyfer y Cynllun leithoedd Swyddogol.

### ***Targed: wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2013.***

- Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Cydgysylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol, i'w gynnull gan Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol, a bydd y rhwydwaith yn cyfarfod o leiaf unwaith bob chwarter. Bydd y rhwydwaith yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu.

### ***Targed: mis Ebrill 2013***

- Bydd y rhwydwaith yn ceisio dod o hyd i ddatrysiadau i'n galluogi i ymateb yn gadarnhaol i unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun neu unrhyw faterion eraill wrth iddynt godi.

### ***Targed: bob chwarter ym mhob cyfarfod o'r rhwydwaith (o fis Medi 2013).***

- Byddwn yn penodi Rheolwr dynodedig y Cynllun leithoedd Swyddogol.

### ***Targed: mis Mehefin 2013.***

- Bydd pob gwasanaeth yn paratoi adroddiad ar unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun ar gyfer Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol yn flynyddol.

### ***Targed: yn flynyddol ym mis Mehefin (adroddiad cyntaf i'w gwblhau ym mis Mehefin 2014).***

- Bydd Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol yn gyfrifol am gydgysylltu'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad a fydd yn nodi sut y mae'r Comisiwn wedi rhoi'r Cynllun ar waith yn ystod y flwyddyn o dan sylw.

### ***Targed: ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.***

- Bydd cynllun gweithredu sy'n amlinellu'r blaenoriaethau a'r camau i'w cymryd yn y flwyddyn ddilynol yn cyd-fynd â'r adroddiad blynyddol.

### ***Targed: ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.***